COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI A GYNHALIWYD NOS FAWRTH,

11eg EBRILL 2023 YN Y GANOLFAN TALYSARN AM 7.00YH

1. PRESENNOL – Gwyndaf Roberts (Cad), Hefina Roberts, Christine Hughes (Llanllyfni), Barry Bracegirdle, Erfyl Williams, Dylan Herbert, Ceri Owen (Penygroes), Dafydd Thomas (Nebo), Harry Owen, Gareth Jones, Siân Dafydd, Peter Bridges (Talysarn), Ffion Jones (Nantlle), Cyng. Peter Thomas.

YMDDIHEURIADAU – Justin Davies, Judith Humpherys (Penygroes).

Hefyd yn bresennol roedd aelodau o'r Orsaf a trigolion Maes Y Môr, Penygroes ar gyfer trafod eitem 3 – Tir Cwtîn. *Also present were members of Yr Orsaf and residents of Maes Y Môr, Penygroes for the discussion of item 3 – Tir Cwtîn.*

2. DATGAN BUDDIANT – Peter Bridges – eitem 3 Tir Cwtîn – bu iddo ddatgan buddiant sy'n rhagfarnu gan bod ei bartner yn gweithio yn Yr Orsaf a bu iddo adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth. *Peter Bridges – item 3 Tir Cwtîn - he declared an interest which is prejudicial as his partner works at Yr Orsaf and he left the meeting during the discussion.*

3. Tir Cwtîn – Croesawyd aelodau o'r Orsaf a trigolion Maes Y Môr i'r cyfarfod ac esboniwyd bod ganddynt gyfle i un aelod a un o'r trigolion siarad am 3 munud yn un am y mater dan sylw. Gwahoddwyd Ben Gregory o'r Orsaf ymlaen i roi cyflwyniad o beth yw bwriadau Yr Orsaf ar gyfer tir Cwtîn. Roedd wedi paratoi cyflwyniad ar gopi caled i'w rannu ac i bawb ei weld. Esboniodd mae'r bwriad yw i roi 24 o randiroedd ar dir Cwtîn yn dilyn derbyn grant ar gyfer hyn. Esboniodd bod trigolion Maes Y Môr wedi datgan pryderon ynglŷn â'r datblygiad ac nad oeddynt yn hapus. Roedd cyfarfod wedi ei gynnal gyda'r Orsaf a'r trigolion i geisio lleddfu y pryderon ar Orsaf wedi cynnig dod a niferoedd y rhandiroedd lawr i 15 a bod cytundeb mewn lle gyda cwmni Wynnstay i'r defnyddwyr ddefnyddio eu maes parcio yn hytrach nac parcio ar safle Maes Y Môr. Gofynnodd i'r Cyngor Cymuned gario ymlaen i gefnogi y cais hwn a diolchodd am yr amser i roi ei gyflwyniad. Bu i'r cyflwyniad parau 6 munud. *Members of Yr Orsaf and residents of Maes Y Môr were welcomed to the meeting and it was explained that they had the opportunity for one member and one of the residents to speak for 3 minutes each about the matter in question. Ben Gregory from Yr Orsaf was invited to give a presentation of what their intentions are for the Cwtîn land. He had prepared a hard copy presentation to share and for everyone to see. He explained that the intention is to put 24 allotments on Cwtîn following receiving a grant for this. He explained that the residents of Maes Y Môr had expressed concerns about the development and that they were not happy. A meeting had been held with Yr Orsaf and the residents to try and alleviate the concerns and Yr Orsaf had proposed to bring the number of allotments down to 15 and that there was an agreement in place with the Wynnstay company for the users to use their car park rather than park on the Maes Y Môr site. He asked the Community Council to carry on to support this application and thanked them for the time to give his presentation. The presentation lasted 6 minutes.*

Gwahoddwyd un o drigolion Maes Y Môr, Emma Owen, i roi cyflwyniad ar ran y trigolion a oedd wedi datgan pryder am y datblygiad hwn. Diolchodd am y cyfle, ond datganodd nad oedd yn hapus bod yr Orsaf wedi cael 6 munud o amser gan ei bod hi ond wedi paratoi ar gyfer y 3 munud a oedd wedi ei nodi. Roedd trigolion Maes Y Môr wedi paratoi cyflwyniad i'w rannu rhwng y cyngor cymuned a bu i gopi caled gael ei rannu. Roedd gan y trigolion nifer o bryderon ynglŷn a'r cynllun ac roedd hyn yn cael eu codi yn y cyflwyniad. Y pryderon oedd bod y tir yn wlyb ac angen ei ddraenio ac yn wreiddiol fel cae chwarae mae'r tir wedi ei lunio. Roeddynt yn bryderus am yr effaith y buasai cael rhandiroedd yn ei gael ar iechyd meddwl a lles y trigolion a buasai cario ymlaen â'r datblygiad yn cael effaith ar fynediad y preswylwyr i'w stryd, llygredd sŵn, risg tân, llai o olau i mewn i'w eiddo, tarfu ar eu preifatrwydd, ymddygiad gwrthgymdeithasol a fuasai yn deillio o hyn, risg o ymgarthu dynol, sbwriel, gwerth eu heiddo os buasai yr datblygiad yn mynd ymlaen. Gofynnodd y trigolion i'r Orsaf annog Mannau Agored Cymru i gynnal asesiad i ddiogelu'r Cwtîn yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru a bod angen ymchwilio ymhellach ynglŷn â diogelu ystlumod a

rhywogaethau eraill sy'n hysbys i'r ardal. Codwyd cwestiynau ynglŷn â materion yn ymwneud â'r Cyngor Cymuned a pam bod bod y cyngor cymuned wedi gwneud cais i gofrestru'r tir ac at ba ddiben a pam bod y cyngor wedi rhoi caniatad i'r Orsaf geisio am grant ar gyfer y prosiect pan nad yw'r tir wedi ei gofrestru nag yn berchen i'r cyngor? Gofynwyd os y buasai yn bosib i'r cwestiynau hyn gael eu hateb yn y cyfarfod nesaf? Bu i'r cyflwyniad barau am 6 munud. *One of the residents of Maes Y Môr, Emma Owen, was invited to give a presentation on behalf of the residents who had expressed concern about this development. She thanked for the opportunity, but declared that she was not happy that Yr Orsaf had 6 minutes of time as she had only prepared for the 3 minutes that had been specified. The residents of Maes Y Môr had prepared a presentation to be shared between the community council and a hard copy was shared. The residents had a number of concerns regarding the project and this was raised in the presentation. The concerns were that the land was wet and needed to be drained and the land was originally designed as a playing field. They were concerned about the effect that having allotments would have on the mental health and well-being of the residents and that carrying on with the development would have an effect on the residents' access to their street, noise pollution, fire risk, less light to into their property, disturbing their privacy, anti-social behaviour, risk of human defecation, rubbish and the decrease in the value of their property if the development were to go ahead. The residents asked Yr Orsaf to encourage Open Spaces Wales to carry out an assessment to protect the Cwtîn in accordance with Welsh Government policy and that further research is needed regarding the protection of bats and other species known to the area. Questions were raised regarding issues relating to the Community Council and why they had applied to register the land and for what purpose and why the council had given permission for Yr Orsaf to seek a grant for the project when the land is not registered or owned by the council? It was asked if it would be possible for these questions to be answered at the next meeting? The presentation lasted 6 minutes.*

Yn dilyn clywed gan y ddwy ochr rhoddwyd cyfle i unrhyw aelod o'r cyngor cymuned ofyn cwestiwn am beth gyflwynwyd. Datganwyd bod angen mwy o amser i gael edrych dros y dogfenau a oedd wedi eu cyflwyno heno er mwyn rhoi ymateb teg i'r ddwy ochor felly cynigwyd ac eilwyd i ohirio trafodaeth bellach am y rhesymau hyn. Cytunwyd yn unfrydol i hyn. Diolchwyd i bawb a oedd yn bresennol am eu cyflwyniadau a datgan y bydd y cyfarfod llawn nesaf yn cael ei gynnal nos Fawrth, 9fed Mai ble bydd y mater yn cael ei drafod ymhellach. Bu i aelodau Yr Orsaf a trigolion Maes Y Môr adael y cyfarfod a galwyd ar Peter Bridges nôl ar gyfer gweddill yr eitemau ar yr agenda. *After hearing from both sides, members of the community council were given the opportunity to ask a question about what was presented. It was declared that more time was needed to look over the documents that had been presented tonight in order to give a fair response to both sides so it was proposed and seconded to postpone further discussion for these reasons. This was unanimously agreed. Everyone who was present was thanked for their presentations and stated that the next plenary meeting will be held on Tuesday evening, 9th May where the matter will be discussed further. Members of Yr Orsaf and residents of Maes Y Môr left the meeting and Peter Bridges was called back for the rest of the items on the agenda.*

4. **<u>Cywirdeb cofnodion cyfarfod 14 Mawrth 2023</u>** - Cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion hyn yn gywir.

5. **<u>Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd</u>** - eitem 5 - Safle Taldrwst Lôn Ddŵr - nodwyd bod llythyr wedi ei dderbyn yn dilyn ymateb y Cyngor Cymuned i lythyr a dderbyniwyd gan aelod o'r cyhoedd a oedd yn bresennol yng nghyfarfod mis Chwefror yn nodi ei fod mewn cyswllt gyda chyfreithwyr a'r heddlu ynglŷn â'r mater a drafodwyd. Eitem 7 - Materion Pentrefi - Talysarn - silicon heb gael ei roi ar ddrysau'r ystafell newid fel y gofynnwyd - angen gwneud siŵr bod hyn yn cael ei wneud cyn gynted â phosib.

6. **<u>Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir</u>** - derbyniwyd adroddiad gan y Cyng. Peter Thomas ac roedd pawb wedi cael cyfle i edrych drosti cyn y cyfarfod - nid oedd dim yn codi o'r adroddiad a diolchwyd iddo am ei pharatoi. Derbyniwyd e-bost gan Cyng. Craig ab Iago ynglŷn â chynlluniau i ehangu maes parcio Plas Silyn - adroddwyd nad oedd y cynlluniau wedi eu gorffen eto ac felly disgwyl i gael mwy o wybodaeth. Cynigwyd ac eiliwyd y dylid gofyn i'r

Cyng. Dafydd Davies a Craig ab Iago i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd er mwyn cael gwybodaeth ganddynt am y gwaith maent wedi bod yn cario allan.

7. **Cyfarfodydd is-bwyllgorau** – nid oedd is-bwyllgor wedi ei gynnal yn ystod y mis.

8. **Cyfarfod blynyddol** – nodwyd y bydd y cyfarfod blynyddol yn cael ei gynnal nos Fawrth, 9fed Mai am 7.00 yh yng Nghanolfan Talysarn.

9. **Taflen ariannol a chyllid** - adroddwyd bod tan wariant wedi bod yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23. Roedd y bwriad wedi bod i wario oddeutu £88,000 ond £55,000 a wariwyd yn y diwedd sydd yn golygu bydd £27483 yn cario drosodd i gyllideb 2023/24. Prif reswm am y tan wariant oedd nad oedd y prosiect Clwb Ieuenctid wedi bwrw ymlaen, ond gobeithio bydd hyn yn cymryd lle eleni. Mae yna gyfanswm o £4500 o DAW i ddod yn nôl hefyd. Diolchwyd i Gareth am ei gymorth gyda pharatoi'r gyllideb.

10. **Llwybrau a Mynwentydd** - **Mynwent Gorffwysfa** - difrod wedi ei wneud i ddrws y cwt sydd ym mhendraw'r fynwent . Nid yw'r cwt yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dim byd ac mae yn wag, felly cynigwyd y buasai efallai yn syniad ei dynnu lawr a gofyn i'r contractwyr sydd yn torri'r fynwent roi pris ar y gwaith hwn. Cytunwyd i hyn a gofyn i'r clerc gael pris ganddynt. Angen rhoi arwydd yn y fynwent ble roedd y corlannau yn dweud wrth bobl fynd a'u sbwriel adref gyda nhw - pobl dal yn gadael sbwriel yno er bod yna arwydd ar y giât wrth fynd fewn yn nodi bod angen mynd ag o oddi yno. **Mynwent Macpela** - sbwriel wedi ei gasglu o gwmpas y fynwent ond wedi ei adael wrth y wal ger y tap dŵr - cytunodd Barry a Gwyndaf fynd i edrych ar y sefyllfa. **Llwybr rhif 97 Nebo i Pant Y Gog** - rhan o'r llwybr ger safle Freshfields heb ei dorri ers rhai blynyddoedd er ei fod wedi ei nodi yn category 1 sydd yn golygu ei fod i'w dorri ddwywaith y flwyddyn. Y clerc i gysylltu gyda'r contractwyr i ofyn iddynt fynd i edrych ar y llwybr. **Llwybr Nantlle** - esboniwyd bod llwybr yn Nantlle sydd yn mynd drwy gerddi dau dŷ yno ac mae'r trigolion yn awyddus i wneud cais i gau'r llwybr gan fod pobl yn eistedd yn eu gerddi ayyb ac mae ganddynt blant ifanc yn byw yno. Mae nhw yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor Cymuned gyda hyn.

11. **Materion Pentrefi - Talysarn** - Canclwm yn tyfu wrth gylchdro Ffordd Nantlle ac angen sylw gan Gyngor Gwynedd. Pobl yn parcio yn ofnadwy o beryglu ar y cylchdro - er bo Cyngor Gwynedd wedi rhoi addewid o linellau melyn yno nid ydynt wedi gwneud hyn. Lôn Bryn Celyn, Lôn Yr Eglwys a throad fewn i Bryn Derwen i gyda yn dyllog ofnadwy ac angen sylw. **Penygroes** - tyllau ar y cylchdro wrth co-op. Tyllau yn y ffyrdd wedi eu cau ond heb eu selio sydd yn golygu nawr bod y tyllau yn ail-agor. Pryder am y parcio ar y groesfan pelican yn y Stryd Fawr yn enwedig gyda'r nosau - mae yn beryglus iawn yno ar rai adegau. Angen arolwg o'r cerbiau yn Trem Yr Wyddfa a dywedodd Barry y buasai yn fodlon cyfarfod â swyddog o'r Cyngor yno ar gyfer yr arolwg. **Nantlle** - Lôn Tai Nantlle tyllau dyfn iawn yno ac angen sylw. **Nebo** - adroddwyd bod Parc Nebo wedi ei orffen bellach a diolchwyd am y cyfraniad ariannol gan y Cyngor Cymuned. **Llanllyfni** - sefyllfa parcio yn Llanllyfni wedi gwaethygu a phroblem baw ci dal yn bodoli ac yn gwella dim. Y clerc i gysylltu gyda'r sefydliadau / swyddogion ynglŷn â'r materion hyn.

12. **Ceisiadau Cynllunio** - Y23/0192 - Tir i'r Dwyrain o Heol Y Dŵr, Penygroes - datblygiad aml-ddefnydd arfaethedig. Roedd pawb wedi derbyn y manylion am y mater hwn i edrych drosto cyn y cyfarfod ac roedd yna bethau a oedd yn codi o'r cynllun. Y peth cyntaf yw lleoliad y prif faes parcio, mae yn nes at Ffordd y Sir na'r Co-op, felly a fydd pobl yn parcio ar y strydoedd cyfagos ac ar y brif ffordd, yn hytrach na cherdded y pellter yma yno ac yn ôl? Hefyd o ran y lleoliad, fydd goleuadau ar y ffordd i'r maes parcio ac oddi mewn iddo? Mae yn edrych fel lle unig ac yn bell o'r prif adeiladau, a all roi pobl ffwrdd o safbwynt diogelwch personol, yn enwedig mewn tywyllwch. Yr ail beth yw'r niferoedd o lefydd parcio. Maent yn dweud fod 88 o rai arferol (gweddill yn anabl ayyb) yn gynnydd, ond yn ôl un ddogfen, fydd oddeutu 200 o staff yn gweithio ar y safle yn ei gyfanrwydd felly oes digon o ddarpariaeth mewn gwirionedd, wrth feddwl y bydd ymwelwyr a thrigolion angen parcio hefyd? O ran y cynllun, yr ardal gyhoeddus, rhwng y theatr, meddygfa ar cartref. Teimlad yw bod hwn wedi ei â gau fewn ac o beryg am wahodd ymddygiad gwrth cymdeithasol yn y dyfodol, yn enwedig yn y nos, pan fydd pobman, heblaw'r cartref wedi cau. Mae'r orsaf heddlu'r ochor arall i'r cartref ac felly ar wahân braidd. A ddylid hwn fod yn edrych ar neu yn nes at yr ardal

gyhoeddus, er mwyn rhoi neges yn erbyn unrhyw weithgaredd gwrthgymdeithasol ar y safle? Yr opsiwn arall fyddai newid y cynlluniau fel bod yr ardal gyhoeddus yn fwy agored i'r stryd? Nid oes dim son i'w weld o bwyntiau pŵer i geir trydanol - a yw hyn yn rhywbeth a ddylid ei ystyried a'i nodi yn y cynlluniau? Yn yr un modd paneli solar. Hoffai'r Cyngor Cymuned hefyd dderbyn mwy o wybodaeth am y caffi yn y prif adeilad. Ydi hwn am gystadlu gyda busnesau bwyd eraill yn y pentref? Y clerc i ymateb i'r cais gyda'r materion uchod.

13. **<u>Gohebiaeth</u>** – nid oedd dim yn codi o'r ohebiaeth a oedd wedi ei dderbyn dros y mis.

14. **<u>Materion ariannol</u>** - cytunwyd i dalu Dŵr Cymru £119.33 a Nia Jones £25.00. Ond gan nad yw Archwilio Cymru wedi gorffen y gwaith archwilio eto penderfynwyd dal nôl cyn talu'r anfoneb hon o £324.00.

Diolchwyd i bawb am fod yn bresennol a bydd y cyfarfod nesaf yw gynnal nos Fawrth, 9fed Mai am 7.00yh.